# PA BENDERFYNIADAU FYDDECH CHI'N EU GWNEUD FEL ARWEINYDD YN Y BYD?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

Mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am gynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy. Maent yn ymchwilio i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) ac yn eu didoli, cyn eu defnyddio fel sail i ystyried pa mor bwysig yw cynaliadwyedd i'r ardal leol. Mae dysgwyr yn archwilio eu hardal leol ac yn nodi materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a'r NDC, gan gasglu tystiolaeth i dynnu sylw at rai materion a nodi prif achosion ac effeithiau'r materion hyn. Maent yn canolbwyntio ar un mater sydd o bwys ac yn ystyried a chynllunio pa gamau y gallent eu cymryd i helpu i ddatrys y broblem. Mae dysgwyr yn dilyn y cynllun, yn monitro cynnydd, yn myfyrio ar y broses, gan ystyried yr hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd, cyn archwilio sut y gallent rannu eu gweithredoedd â chynulleidfa ehangach. Mae dysgwyr yn ystyried ac yn blaenoriaethu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ar lefel genedlaethol ac yn gwneud cysylltiadau â'r nodau lles perthnasol a amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Cânt eu herio i flaenoriaethu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy fel pe byddent yn arweinydd ar y byd i gyd ac i gyfiawnhau eu rhesymu.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio golygfeydd a synau, e.e. tabled, ffôn clyfar, papur a phensiliau, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW DATBLYGU CYNALIADWY?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i geisio canfod beth mae cynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy yn ei olygu. Byddant yn ymchwilio i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) ac yn eu didoli.

## Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y sgrin gyntaf, ar gyfer ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw ystyr 'cynaliadwyedd', yn eich barn chi?
- Ym mhle ydych chi wedi clywed y term 'cynaliadwy'? At beth yr oedd yn cyfeirio?
- Ydych chi erioed wedi defnyddio'r term 'cynaliadwy'? At beth roeddech chi'n cyfeirio?

## Sgrîn 4

Dangoswch y dair delwedd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, i'r dysgwyr. Gofynnwch iddyn nhw ddewis dwy o'r delweddau a chwblhau'r frawddeg ganlynol ar gyfer pob delwedd.

**Mae'r ddelwedd hon yn gysylltiedig â chynaliadwyedd oherwydd...**

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod bywyd ar y Ddaear yn gydbwysedd rhwng yr hyn y mae bodau dynol ei eisiau a'i angen, a'r hyn y gall y Ddaear fforddio ei roi i ni heb gael ei niweidio'n ormodol. Mae angen i ni ddatblygu'r Ddaear yn gynaliadwy fel y gall ein plant a'u plant fyw mewn dyfodol gwell.

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen diffiniad o Ddatblygu Cynaliadwy gan y Cenhedloedd Unedig.

**'Datblygu cynaliadwy yw sut mae'n rhaid i ni fyw heddiw os ydym am gael gwell ..............., drwy ddiwallu ............... presennol heb beryglu'r ................ sydd gan ................ dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.'**

Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r bylchau fel bod y frawddeg yn gwneud synnwyr. Rhoddir y pedwar gair canlynol ar y sgrîn i gefnogi dysgwyr: genedlaethau'r; anghenion; siawns; yfory.

## Sgrîn 6

Dangoswch yr un tair delwedd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd i'r dysgwyr. Gofynnwch iddyn nhw ystyried pa un o'r tair delwedd sy'n cynrychioli Datblygu Cynaliadwy orau ac i egluro eu rhesymau.

## Sgrîn 7

Eglurwch fod arweinwyr y byd, yn 2015, wedi cytuno ar 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (NDC) ar gyfer creu byd gwell erbyn 2030. Rhoddir tri o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy i ddysgwyr: Addysg Dda, Bywyd o Dan y Dŵr a Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy.

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sawl un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy eraill ydych chi'n gwybod amdanyn nhw?
- Os ydych yn ansicr o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy eraill, beth ydych chi'n ei feddwl ydyn nhw?

Anogwch y dysgwyr i wneud rhestr o unrhyw Nodau Datblygu Cynaliadwy y maent eisoes yn eu hadnabod ac yna ychwanegu at eu rhestr, unrhyw bethau eraill y maent yn meddwl y dylid eu cynnwys yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy.

## Sgrîn 8

Gofynnwch iddynt wylio'r fideo hwn [Do you know all 17 SDGs?] (1 munud a 30 eiliad) ac i wirio'r NDC y maen nhw wedi meddwl amdanynt ochr yn ochr â rhestr Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Wedyn, gallant ychwanegu unrhyw Nodau o restr y Cenhedloedd Unedig, nad ydynt ar eu rhestr nhw yn barod.

## Sgrîn 9

Mae dysgwyr yn cael gwybod fod gan y Nodau Datblygu Cynaliadwy y grym i roi terfyn ar dlodi, brwydro yn erbyn anghydraddoldeb a lleihau newid yn yr hinsawdd. Gofynnir iddynt ddidoli'r Nodau Datblygu Cynaliadwy i'r tri chategori canlynol:

Economi
Cymdeithas
Amgylchedd

Dyma restr o'r 17 NDC:

1. Dim Tlodi
2. Dim Newyn
3. Iechyd Da a Llesiant
4. Addysg Dda
5. Cydraddoldeb Rhywiol
6. Dŵr Glan a Glanweithdra
7. Ynni fforddiadwy a Glân
8. Gwaith Da a Thwf Economaidd
9. Diwydiant, Arloesi ac Isadeiledd
10. Lleihau Anghydraddoldeb
11. Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy
12. Treuliant a Chynhyrchu Cyfrifol
13. Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd
14. Bywyd o Dan y Dŵr
15. Bywyd ar y Tir
16. Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf
17. Partneriaethau i gyflawni'r Nod

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych yn ôl ar eu tabl didoli ac ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A yw unrhyw rai o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn perthyn i fwy nag un categori? Pa rai?
- Cymharwch y ffordd rydych chi wedi didoli'r NDC gyda'r ffordd mae eraill yn y dosbarth wedi eu didoli. A wnaeth yr holl grwpiau gategoreiddio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn yr un modd?
  - Beth oedd y gwahaniaethau?
  - Pam y gallai fod gwahaniaethau?

## Sgrîn 11

Gofynnir i'r dysgwyr ddidoli'r NDC eto, gan ddefnyddio diagram Venn gwag a ddarperir, y tro hwn. Anogwch nhw i ystyried y cwestiwn canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae defnyddio diagram Venn yn eich helpu i ddidoli'r Nodau Datblygu Cynaliadwy?

TASG 2

# YM MHA FODD MAE CYNALIADWYEDD YN BWYSIG YN YR ARDAL LEOL?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i gael y cyfle i siarad â phobl o sefydliadau lleol am gynaliadwyedd yn yr ardal leol. Yna, byddant yn cynnal arolwg o'r ardal leol i chwilio am faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

## Sgriniau 3-4

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddwch yn trefnu taith i sefydliad leol neu'n gwahodd pobl i'r ysgol i siarad am gynaliadwyedd yn yr ardal leol. Gallai sefydliadau a phobl leol gynnwys cynghorwyr lleol, elusennau, cwmnïau, ac ati.

Eglurwch wrth y dysgwyr fod angen iddynt feddwl pa gwestiynau y gallent eu gofyn cyn iddynt siarad â phobl am gynaliadwyedd yn yr ardal leol.

Gwahoddwch nhw i restru cymaint o gwestiynau ag y gallant ac i gofio bod cwestiwn da yn gwestiwn agored. Os byddan nhw'n gofyn cwestiynau caeedig (gydag atebion pendant, e.e. 'ie' neu 'na'), bydd angen i ddysgwyr feddwl am gwestiynau atodol.

## Sgrîn 5

Gofynnir i'r dysgwyr fyfyrio ar eu nodiadau o'r cyfweliadau a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa feysydd cynaliadwyedd a drafodwyd?
- Sut allech chi gategoreiddio'r meysydd cynaliadwyedd i'r economi, cymdeithas a'r amgylchedd?
- Gan edrych eto ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy, pa rai y cyffyrddwyd â hwy yn y cyfweliadau, yn eich barn chi? Sut?

## Sgrîn 6

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddwch yn mynd â nhw o amgylch yr ysgol a'r ardal leol i chwilio am faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Cyn i chi fynd â'r dysgwyr allan i'r awyr agored, gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw faterion yn barod? Os felly, beth ydyn nhw?
- Pa fathau o faterion ydych chi'n disgwyl eu canfod? Ydy'r rhain yn ymwneud â'r economi, y gymdeithas neu'r amgylchedd?

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i archwilio'r sgrîn 'pennau sy'n siarad'. Gofynnwch iddynt ystyried yr hyn a sylwodd y dysgwyr hyn arno, a pha rai o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy sy'n berthnasol ym mhob achos.

## Sgriniau 8-9

Rhowch gyfarwyddiadau i'r dysgwyr ynghylch yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud pan y byddan nhw y tu allan. Hysbysir y dysgwyr y bydd angen iddynt:

- gasglu tystiolaeth i ddangos y mater(ion), e.e. ffotograffau, fideos, recordiadau sain, brasluniau
- defnyddio map i ddod o hyd i ble y gwnaethant sylwi ar y mater dan sylw
- gwneud nodiadau yn egluro beth yw prif achosion ac effeithiau'r mater dan sylw, yn eu barn nhw.

Yna, ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored er mwyn ymchwilio i'w hardal leol.

## Sgrîn 10

Darparwch y 'map achos ac effaith' syml i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt ei ddefnyddio i archwilio'r mater y gwnaethant sylwi arno yn fanylach. Gwahoddwch nhw i ysgrifennu eu 'mater' yng nghanol y map a'u hannog i wneud y canlynol:

- Meddwl am yr elfennau a allai fod yn achosi'r mater hwn ac ysgrifennu rhai elfennau ar yr ochr chwith. (Gall fod mwy neu lai na their elfen.)
- Meddwl am yr effaith y mae'r mater yn ei gael ar bobl, yr amgylchedd, bywyd gwyllt, cymuned ac ysgrifennu'r syniadau hyn ar yr ochr dde.
- Defnyddio saethau i gysylltu'r rhain.
- Llunio 'map achos ac effaith' ar gyfer pob mater y sylwyd arno.

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y mapiau achos ac effaith y maen nhw wedi'u creu ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A ellir cysylltu pob mater yn glir â Nodau Datblygu Cynaliadwy penodol? Pa un/ rai?
- Pa fater(ion) sy'n gwneud i chi fod eisiau gwneud rhywbeth yn eu cylch? Pam?
- Edrychwch ar yr hyn sy'n achosi'r problemau. Pa achosion ydych chi'n meddwl y dylech ganolbwyntio arnynt?
- Detholwch **un** mater yr hoffech ganolbwyntio arno er mwyn gweithredu.
- Pa syniadau sydd gennych eisoes am y camau y gallech eu cymryd fel grŵp i helpu ynghylch y mater hwn? Gwnewch fap meddwl o'ch syniadau.

## Sgriniau 12-14

Mae'r gyfres hon o dair sgrin ar gyfer annog dysgwyr i ystyried ystod o awgrymiadau am yr hyn y gallent ei wneud i gael gwell dealltwriaeth o'r mater dan sylw.

Ar ôl archwilio pob awgrym, gwahoddwch y dysgwyr i ychwanegu at eu map meddwl.

**Siaradwch â rhywun** – gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Gyda phwy allech chi siarad? Pam fyddai hynny'n eich helpu chi?
- Sut allech chi gysylltu â nhw? Pam ei wneud fel hyn?
- Pa gwestiynau allech chi eu gofyn? Pam?
- Sut byddwch chi'n cofnodi'r hyn maen nhw'n ei ddweud?

**Defnyddiwch y rhyngrwyd i wneud ymchwil** – gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa beiriant chwilio neu Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) fyddwch chi'n ei ddefnyddio? Pam?
- Beth yw'r termau chwilio neu symbyliadau allweddol i'w defnyddio?
- Pa fath o wefannau fydd orau i edrych arnynt? Pam?

Gallai papurau newydd lleol fod yn fan cychwyn da.

**Wrth werthuso gwybodaeth o'r rhyngrwyd** – gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth, yn eich barn chi?
- A allai'r wybodaeth fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allech chi ganfod safbwyntiau eraill?

**Lluniwch arolwg** – gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi eisiau ei ddarganfod?
- Pwy ydych chi am eu cynnwys yn yr arolwg?
- Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn?
- Sut byddwch chi'n dosbarthu'ch arolwg?
- Sut byddwch chi'n dadansoddi'r ymatebion?

## Sgrîn 15

Ar sgrîn olaf y dasg hon, rhoddir cyfle i ddysgwyr ddefnyddio un neu fwy o'r isod ar gychwyn brawddeg er mwyn myfyrio ar y dasg: 'Roeddwn i'n deall y mater yn well ar ôl i mi...'; 'Un peth sydd angen ei newid yma yw...'; 'Un o achosion allweddol ein problem yw...'; 'Ffordd dda o ddarganfod mwy am hyn fyddai...'; 'Mae ein hymchwil wedi gwneud i mi sylweddoli...'; 'Ar ôl fy ymchwil ar-lein, rydw i nawr yn deall...'; 'Rwyf wedi gweld rhywbeth fel hyn o'r blaen pan...'; 'Un peth nad ydw i'n ei ddeall ydy....'.

TASG 3

# SUT Y GALLWN NI WEITHREDU AR BROBLEMAU LLEOL SY'N YMWNEUD Â'R NODAU DATBLYGU CYNALIADWY?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw nawr yn ystyried sut i gymryd camau i ddatrys y materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn yr ardal leol. Byddant yn cyflawni eu cynllun i geisio gwella'r sefyllfa.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn gyntaf, amlinellir proses y gwahoddir dysgwyr i'w defnyddio i gynllunio sut i weithredu ar eu mater: Egluro achosion y mater; Datblygu cynllun; Rhoi'r cynllun ar waith; Myfyrio ar y camau a gymerwyd.

Anogwch nhw i egluro eu dealltwriaeth o'r mater trwy drafod y cwestiynau canlynol mewn grwpiau bach.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r mater yr ydych chi'n ceisio gweithredu arno?
- Sut byddech chi'n egluro beth sydd wedi achosi'r mater hwn?
- Sut gallwch chi dynnu llun neu ddiagram a allai eich helpu i ddeall y mater?
- A oes digon o wybodaeth i'ch galluogi i weithredu? Os nad oes, beth arall sydd angen i chi ei wybod? Pam? Sut byddwch chi'n cael gwybod?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu map meddwl o Dasg 2.

Anogwch nhw i drafod syniadau ynghylch sut y gallen nhw weithredu ar y mater. Ar y cam hwn, ni ddylai dysgwyr werthuso eu syniadau – dim ond rhestru cymaint o awgrymiadau creadigol â phosibl.

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar eu syniadau ac i benderfynu ar y syniad gorau a mwyaf ymarferol trwy ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa syniad(au) sydd fwyaf cyraeddadwy/realistig?
- Pa syniad(au) allwn ni gydweithio arno/arnynt heb orfod dibynnu gormod ar oedolion?
- Pa syniadau sy'n mynd at graidd achos(ion) y mater?
- Pa syniad(au) sy'n debygol o gael yr effaith rydych chi ei eisiau?

## Sgrîn 5

Rhowch ddilyniant syml o gamau i'r dysgwyr, fel y gall pob dysgwr unigol ei ddefnyddio i wneud cynllun.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch bob dysgwr i egluro eu cynllun i weddill y grŵp. Sicrhewch nad oes neb yn torri ar draws dysgwr wrth iddynt egluro eu cynllun.
Gofynnwch i bob dysgwr wrando'n ofalus ar gynlluniau eu cyfoedion ac ysgrifennu:

- Yr hyn maen nhw'n ei hoffi am eu cynllun.
- Awgrym a allai wella'r cynllun.
- Cwestiwn am y cynllun.

Ar ôl i bob person gyflwyno eu cynllun, gall aelodau eraill y grŵp gyflwyno eu sylwadau a gofyn eu cwestiynau. Mae angen i'r grŵp ddewis un o'r cynlluniau unigol i'w roi ar waith fel grŵp. Ceisiwch wneud yn siŵr bod pawb yn y grŵp yn cytuno!

## Sgriniau 7-8

Gwahoddwch y dysgwyr i roi eu cynllun ar waith. Anogwch nhw i gofio gwneud y pethau hyn:

- Ceisiwch gadw'ch cynllun yn syml, yn realistig ac yn gyraeddadwy.
- Efallai na fyddwch chi'n newid y byd! Efallai mai dim ond cam bach, y cam cyntaf o fewn rhywbeth llawer mwy yw hwn.
- Cydweithiwch fel tîm. Casglwch dystiolaeth (ffotograffau, fideos, recordiadau sain) o'r hyn rydych chi'n ei wneud ar hyd y ffordd. Storiwch hwn yn ddigidol ar blatfform a rennir.
- Dylech fonitro i ba raddau y mae eich cynllun yn gweithio wrth i chi ei weithredu.
- Byddwch yn hyblyg a newidiwch eich cynllun os gwelwch nad yw'n gweithio'n dda.

## Sgrîn 9

Anogwch y dysgwyr i gymryd eu hamser i fyfyrio ac edrych yn ôl ar yr hyn y maent wedi'i wneud ac ystyried beth weithiodd a beth na wnaeth weithio. Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd hyn yn eu galluogi i ragfynegi strategaethau perthnasol i'w defnyddio i gynllunio a gweithredu ar faterion yn y dyfodol. Gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rannau o'r cynllun wnaeth weithio?
- Pa rannau o'r cynllun oedd ddim yn gweithio cystal? Pam?
- Sut wnaethoch chi newid y cynllun wrth fynd ymlaen? A wnaeth y newidiadau hyn helpu? Sut?
- Pa fath o effaith y mae eich gweithredoedd wedi'i chael hyd yn hyn?
- Sut gallwch chi fonitro pa mor effeithiol yw eich gweithredoedd dros yr ychydig wythnosau/misoedd nesaf?
- Beth arall allech chi ei wneud i fynd â hyn ymhellach? Sut gallai hyn helpu?

## Sgrîn 10

Ceisiwch gynnwys y dysgwyr yn y broses o rannu tystiolaeth o'u gweithredoedd. Gwahoddwch nhw i greu naill ai boster; ffeithlun; llyfr lloffion neu adroddiad am eu gweithredoedd, gan gofio egluro a dangos:

- Pam y gwnaethon nhw ddewis canolbwyntio ar y mater hwn a sut mae'n cysylltu â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.
- Pa gam(au) a gymerwyd ganddynt.
- Effaith(au) yr hyn a wnaethant.
- Unrhyw gamau nesaf y gallent eu cymryd ar y mater hwn.

## Sgrîn 11

Anogwch y dysgwyr i archwilio sut y gallent rannu gwybodaeth i gynulleidfa ehangach am yr hyn y maen nhw wedi ei wneud, trwy ddilyn y camau hyn.

- Canfod sut i gael erthygl wedi ei chyhoeddi mewn papur newydd lleol.
- Adolygu erthyglau sydd eisoes yn y papur newydd ac ysgrifennu rhestr o nodweddion sy'n gyffredin yn yr erthyglau.
- Ysgrifennu erthygl i'r papur newydd, gan gynnwys lluniau.
- Anfonwch eich erthygl yn ddigidol i'r papur newydd a gofynnwch am iddi gael ei chyhoeddi.

TASG 4

# BETH FYDDECH CHI'N EI FLAENORIAETHU FEL ARWEINYDD YN Y BYD?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw nawr yn mynd i ailymweld â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'u blaenoriaethu ar gyfer Cymru, cyn meddwl yn fwy byd-eang fel arweinydd y byd.

## Sgrîn 3

Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod yn eu prosiect gweithredu a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru i edrych eto ar yr 17 Nod Datblygu Cynaliadwy, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ar ba nodau y byddech chi'n canolbwyntio petaech chi'n Brif Weinidog Cymru? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddewis 6 NDC y maen nhw'n eu gweld fel y rhai sydd bwysicaf i Gymru ac i fod yn barod i gyfiawnhau eu dewisiadau i'r dosbarth.

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r 7 nod llesiant canlynol ar gyfer Cymru fwy cynaliadwy:

Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

## Sgrîn 5

Darparwch deitlau'r 7 nod llesiant â'r paragraffau sy'n disgrifio pob un, ar wahân. Heriwch y dysgwyr i ddarllen pob paragraff ac i baru pob un gyda'i deitl cywir.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ddethol pa un o'r 7 nod llesiant yw'r un pwysicaf yn eu barn nhw a chreu Trydar/X i annog eraill i feddwl am y nod llesiant hwn. Eglurwch eu bod yn gallu defnyddio uchafswm o 280 nod.

## Sgrîn 7

Heriwch y dysgwyr i flaenoriaethu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy fel pe byddent yn arweinydd ar y byd i gyd. Anogwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth arall sydd angen i ni ei ystyried wrth edrych ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy ledled y byd? Pam?
- Sut gallai'r blaenoriaethau o ran y Nodau Datblygu Cynaliadwy amrywio mewn gwahanol rannau o'r byd? Pam?

## Sgriniau 8-9

Eglurwch eich bod am iddyn nhw ddefnyddio Si-so blaenoriaeth ar gyfer y gweithgaredd hwn ac y bydd angen iddyn nhw gyfiawnhau eu dewisiadau i'r dosbarth. Dylech goladu a rhannu sgorau'r dosbarth.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor debyg yw sgorau'r dosbarth cyfan i'ch rhai chi?
- Beth sy'n wahanol am eich sgorau chi o'u cymharu â rhai'r dosbarth?
- Ar ôl myfyrio ar sgorau'r dosbarth a chyfiawnhad pobl eraill – sut mae eich meddyliau chi wedi newid? Pam maen nhw wedi newid?

## Sgrîn 10

Rhowch driongl myfyrio i'r dysgwyr a'u hannog i'w ddefnyddio pan fyddant yn meddwl sut y gwnaethant flaenoriaethu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy fel Arweinydd Byd.

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio: yn unigol, mewn pâr, mewn grŵp ac ar-lein. Yna, dylent ystyried pa strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt o'r rhestr hon: darllen, ymchwilio, tynnu llun, myfyrio ar waith blaenorol, dosbarthu, trafod, gwneud prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallant hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.

Anogwch y dysgwyr i lusgo a gollwng y termau i ddangos beth sydd yn eu meddwl ac i ystyried pa strategaethau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt.